Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

grantiau a thrwyddedau
grants and licences

COETIROEDD GWELL I GYMRU
BETTER WOODLANDS FOR WALES

CYLCHLYTHYR TECHNEGOL

Rhifyn 8 – Mehefin 2007

Cynnwys:

- Nodyn y Golygydd
- Cynlluniau
- Gwelliannau Arfaethedig i'r System yn ystod 07/08
- Gwella'r Broses
- Mapio
- Gwybodaeth o Ffynonellau Allanol (IfES)
- Cyfeirnodau Cwsmer
- Manylion Cysylltu
- Rhifyn Nesaf

Nodyn y Golygydd

Diolch i'r holl gynllunwyr a ddaeth i'r sesiynau hyfforddi a gynhaliwyd ym mis Mai. Gobeithiwn fod y sesiynau wedi bod yn ddefnyddiol i chi; mae'r adborth a gafwyd gennych chi yn sicr wedi bod yn ddefnyddiol. Rydym wedi neilltuo'r rhan fwyaf o'r lle yn y Newyddlen hon i ymhelaethu ar ein hatebion i'ch cwestiynau ac ymholiadau.

Cynhelir y diwrnod hyfforddi olaf ym mis Medi, a bydd angen i unrhyw gynllunwyr nad ydynt eisoes wedi mynychu sesiwn hyfforddi ddod i'r sesiwn hon. Byddwn yn cyhoeddi'r dyddiadau maes o law.

Fyddwn yn danfon ffurflen adborth allan cyn bo hir er mwyn i chi fedru darparu ymateb ychwanegol ar y sesiynau

Cynlluniau

- Cyfanswm y ceisiadau = 478
- Nifer lle mae'r cynllun rheoli dan ystyriaeth = 107
- Nifer a gymeradwywyd = 28

Cynllunwyr y cymeradwywyd cynlluniau o'u heiddo

Cynlluniwr	Cynlluniau a Gymeradwywyd
John Jeremy	4
Alison Wheeler	3
Carl Bridges	3
Graham Heath	3
Alison Ginn	2
Evelyn Over	2
Joe Fielding	2
John Lees	2
Mat Ridley	2
Richard Godefroy	2
Arthur Wiggins	1
Iain Peddie	1
John Ferguson	1
Julian Miller	1
Rob Marsh	1
Neill Scott	1
Cyfanswm	**31**

Mae CCC wedi gwrando ar sylwadau cynllunwyr rheoli ac wedi gwneud rhai gwelliannau i'r system a'r broses CGG

Gweler drosodd a thudalen 3 i weld y gwelliannau arfaethedig ar gyfer 2007 a 2008

Gwelliannau Arfaethedig i'r System yn ystod 2007/08

Dileu Nodweddion	Bydd neges rybuddio newydd yn ymddangos pan fo nodwedd yn cael ei dileu. Bydd y rhybudd hwn yn egluro y byddwch, wrth ddileu'r nodwedd, yn dileu'r holl weithrediadau cysylltiedig, a bydd yn rhoi cyfle i'r cynlluniwr atal y broses ddileu. Bydd hyn yn gymorth i atal cynllunwyr rhag dileu gweithrediadau yn ddamweiniol.
Fy Ngwaith	Mae nifer o gynllunwyr wedi gofyn a oes modd gwella 'My Work'. Rydym yn gobeithio gwneud rhai gwelliannau yn ddiweddarach eleni. Bydd hyn yn cynnwys caniatáu i sgriniau 'My Work' gael eu hidlo, fel eu bod yn dangos yn unig yr achosion hynny lle y mae angen i'r cynlluniwr weithredu. Os yw cynllunwyr yn dymuno gweld eu holl achosion (h.y. gan gynnwys achosion gyda CCC), gellir dewis 'dangos y cyfan/show all' yn y chwiliad. Mae CCC yn gobeithio gwneud gwelliannau pellach yn y maes hwn yn ddiweddarach eleni.
Hanes yr Achos	Cafwyd cais am newid a fydd yn caniatáu i gynllunwyr edrych ar 'Hanes yr Achos/Case History' ar ôl i'r achos gael ei gyflwyno i CCC. Bydd hyn, gobeithio, yn helpu cynllunwyr i olrhain eu hachosion. Ar hyn o bryd ni all cynllunwyr weld 'Hanes yr Achos/Case History' unwaith y mae'r cais wedi cael ei gyflwyno i CCC.
System gwneud cais am Fapiau	Yn anffodus, nid yw'r newyddion cystal ynghylch datblygu system gwneud cais am fapiau uniongyrchol. Nid ydym wedi gallu symud ymlaen â'r datblygiad hwn oherwydd pwysau gwaith mewn meysydd eraill. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i chi barhau i wneud ceisiadau am fapiau papur, neu ddata digidol, i'r Tîm Technegol yng Nghlawddnewydd. Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan ac os bydd y sefyllfa hon yn newid.
Amserau Adnewyddu System	Mae rhai cynllunwyr wedi bod yn cael problemau gydag 'amserau adnewyddu system/system refresh times' wrth fewnbynnu manylion gweithredol. Mae'n bwysig bod y system yn adnewyddu wrth fewnbynnu'r manylion hyn, gan fod hyn yn ei gwneud yn haws i reoli'r 'dewisiadau' sydd ar gael i'r cynlluniwr. Er enghraifft, mae yna 315 o weithrediadau yn CGG/BWW, ac oni cheir adnewyddu awtomatig bydd y cynllunwyr yn gorfod dewis o'r rhestr hon bob amser. Drwy adnewyddu ar ôl dethol, gellir lleihau'r rhestr sy'n dilyn fel ei bod yn cynnwys eitemau perthnasol yn unig. Felly, er ei bod yn ymddangos bod adnewyddu'n wastraff amser, mae rheswm dros hyn, a gobeithir y bydd yn arbed amser yn y pen draw. Mae amser adnewyddu system o 1 neu 2 eiliad yn arferol. Os yw cynllunwyr yn gweld ei bod yn cymryd llawer mwy o amser na hyn, dylent gysylltu â CCC, ac mae'n bosibl y gallwn roi cyngor i chi.
Swyddogaethau Adrodd	Bydd yr elfen adrodd yn ôl hon o Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein ar gael yn ddiweddarach eleni, a bydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd ac yn caniatáu i ymgeiswyr a'u hasiantau adrodd yn ôl ar bynciau megis gweithrediadau.

Rhaid gwneud cais am fapiau papur neu ddigidol drwy'r Tîm Gwasanaethau Technegol yng Nghlawddnewydd

Gwella'r Broses

Cyfathrebu	Bydd Cynllunwyr a Swyddogion Coetir yn awr yn anfon e-bost at ei gilydd pan fydd achos yn cael ei drosglwyddo o'r naill i'r llall.
Coetiroedd i mewn i CGG	Mae peth dryswch o hyd ynghylch a oes rhaid i ymgeiswyr ddod â'u holl goetiroedd o fewn y cynllun CGG/BWW ac a oes rhaid iddynt gael un cynllun ar gyfer eu holl goetiroedd. Rydym wedi cynhyrchu dogfen o'r enw 'Approach to Management Planning / Ymagwedd at Gynllunio Rheoli' i roi arweiniad ar faterion o'r fath.
Asesiadau Cymdeithasol	Cynhyrchwyd fersiwn wedi'i diweddaru o'r ddogfen 'Approach to Social Issues / Ymagwedd at Faterion Cymdeithasol' er mwyn egluro gofynion mynediad cyhoeddus a'r defnydd o asesiadau cymdeithasol.
Arolygyn Archaeolegol	Arolygon archaeolegol - Bydd CCC yn derbyn argymhellion yr Ymddiriedolaethau Archaeolegol ynghylch arolygon cerdded drosodd ac yn adolygu eu heffeithiolrwydd y flwyddyn nesaf.
Ymgynghori	Dylai cynllunwyr gofio bod angen ymgynghori â'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn unig mewn perthynas â ffiniau'r Parc – nid oes angen ymgynghori â'r awdurdod lleol.
Ffioedd Asesu Coedwigaeth Gorchudd Di-dor	Telir ffioedd asesu Coedwigaeth Gorchudd Di-dor (CCF) ar gyfer pob ardal sy'n pasio'r sgorio, beth bynnag yw canlyniad yr asesiad. Os nad oes map o adrannau ar gael, gellir defnyddio map llai manwl sy'n nodi'r prif newidiadau o ran cnwd, pridd ac agwedd.

Mapio

Codwyd nifer o gwestiynau mewn perthynas â darparu mapiau papur neu ddigidol i'w defnyddio wrth baratoi achos CGG/BWW. Hyd nes y bydd y system gwneud cais am fapiau bresennol yn cael ei disodli gan y system gwneud cais ar-lein, rhaid gwneud pob cais am fapiau papur neu ddigidol drwy'r Tîm Cymorth Technegol yng Nghlawddnewydd. O dan y cytundeb presennol, bydd y mapiau hyn yn cael eu darparu o fewn 14 diwrnod, ond yn y mwyafrif o achosion, gan ddibynnu ar y gwasanaeth post, darperir y mapiau hyn o fewn 5 diwrnod gwaith. Yn achos ceisiadau am fapiau digidol, byddwn yn e-bostio'r map i chi os yw eich system e-bost yn gallu ymdopi â maint y ffeil. Ni fyddwn yn darparu mapiau digidol ar gyfer ardal fwy na 10 km x 10 km o faint. Os na fyddwch wedi derbyn eich mapiau o fewn 14 diwrnod, a fyddech cystal â chysylltu â'r Tîm Cymorth Technegol a fydd yn edrych i mewn i'r mater.

Mae graddfa mapiau papur yn bwysig. Prif swyddogaeth y mapiau hyn yw rhoi gwybodaeth fanwl gywir i'r Tîm Cymorth Technegol y gellir ei chipio'n ddigidol i'w defnyddio o fewn y System Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein. Mewn ambell achos, mae'n bosibl y bydd y Tîm Cymorth Technegol yn gofyn am raddfa wahanol i'r hyn y gofynnwyd amdani gan y Cynlluniwr Rheoli er mwyn helpu cipio data. Os bydd hyn yn achosi problem, byddwch cystal â chysylltu â'r Tîm Cymorth Technegol. Cofiwch y bydd angen i ni gysylltu â chi os nad yw'r wybodaeth ar y mapiau neu fanylion y mapiau yn eglur. Mewn rhai achosion prin, gallwn hyd yn oed wrthod y map a ddarparwyd a'i ddychwelyd atoch a gofyn i chi ei ailgyflwyno.

Mae Cyfeirnodau Cwsmer yma i aros. Helpwch ni i'ch helpu chi drwy roi gwybod i'n Swyddogion Coetir am unrhyw broblemau penodol.

Caniateir i chi wneud nifer cyfyngedig o gopïau o fapiau papur a phrintiau o fapiau digidol i'w defnyddio wrth baratoi'r achos. Byddwch cystal â gwneud defnydd o'r ddarpariaeth hon, a chymryd eich amser wrth baratoi'r wybodaeth ar y map.

Rydym wedi cyhoeddi canllaw ar gyfer Cynllunwyr Rheoli ar sut i baratoi mapiau Cynllun Rheoli. Roedd copïau ar gael ym mhob un o'r sesiynau hyfforddi, a byddant ar gael ar ein gwefan cyn bo hir. Byddwn yn edrych ar y posibilrwydd o ddarparu arweiniad pellach ar fapio ar gyfer camau eraill o fewn y broses CGG/BWW, ynghyd â siart llif a fydd yn manylu ar brosesau mapio Cynllunwyr Rheoli a'r Tîm Cymorth Technegol.

Rydym hefyd wedi cytuno y bydd y Swyddog Cymorth Technegol a neilltuwyd i'ch achos yn eich e-bostio ar ôl cwblhau'r broses cipio data ar gyfer y Cynllun Sylfaen ac ar gyfer y Cynllun Rheoli. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i chi pan fyddwn wedi gorffen llwytho i fyny'r ymatebion Gwybodaeth o Ffynonellau Allanol (IfES) sydd wedi cyrraedd ar ôl y dyddiad priodol.

Gwybodaeth o Ffynonellau Allanol (IfES)

Mae COFNOD, y Ganolfan Gofnodion Leol ar gyfer Gogledd-Orllewin Cymru yn awr yn gallu darparu gwybodaeth ar gyfer achosion CGG/BWW. Rydym yn aros am lansiad y Ganolfan Gofnodion Leol ar gyfer De-Orllewin Cymru yn ddiweddarach eleni. Ar ôl hyn, bydd gan bob rhan o Gymru Ganolfan Gofnodion Leol.

Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent wedi cael copi o'n cytundeb drafft, a gobeithiwn y byddwn yn ei lofnodi cyn bo hir. Bydd hyn yn golygu bod gennym gytundeb gyda phob Ymddiriedolaeth Archaeolegol yng Nghymru.

Rydym yn bwriadu cwrdd â chynrychiolwyr o'r Canolfannau Cofnodion Lleol a'r Ymddiriedolaethau Archaeolegol cyn bo hir i adolygu nid yn unig y wybodaeth a ddarperir ganddynt ond hefyd y modd y darperir y wybodaeth honno (y fformat). Mae'r ddau grŵp o sefydliadau wedi gofyn am adborth ar y gwasanaeth a ddarperir ganddynt. Os hoffech wneud sylw ar y wybodaeth a'r ffordd y caiff ei darparu, a fyddech cystal â chysylltu â'r Tîm Cymorth Technegol.

Cyfeirnodau Cwsmer

Rydym wedi derbyn peth adborth gennych chi yn ddiweddar ynghylch anawsterau a wynebir wrth geisio cael Cyfeirnodau Cwsmer gan Swyddfeydd Rhanbarthol yr Adran Amaeth. Mae'r broses hon yn newydd i berchenogion a rheolwyr coetiroedd ac i staff yr Is-adran Taliadau Gwledig ac felly roedd bron yn anochel y byddai problemau'n codi ar y dechrau. Er ei bod hi'n ymddangos bod peth o'r gwaith papur yn ddi-angen, mae'n bwysig i ni gipio'r holl wybodaeth angenrheidiol mor fanwl â phosibl er mwyn osgoi llawer o broblemau yn y dyfodol. Mae Cyfeirnodau Cwsmer yma i aros ac nid yw'r broses gwneud cais yn debygol o newid ar hyn o bryd.

Y tu ôl i'r llenni, rydym mewn cysylltiad rheolaidd â'r Is-adran Taliadau Gwledig ynghylch nifer helaeth o faterion, gan gynnwys Cyfeirnodau Cwsmer. Mae'n bwysig ein bod yn dod o hyd i unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â'r broses er mwyn ceisio eu datrys a gwella'r gwasanaeth i chi. Mae arnom angen gwybodaeth gennych chi ar gyfer y fforwm hwn. Os oes gennych chi broblemau penodol, rydym yn gofyn i chi gysylltu â'ch Swyddog Coetir a fydd yna'n trosglwyddo'r wybodaeth i ni. Diolch i chi am helpu.

A fyddech cystal â chofio bod arweiniad ar gael ar wefan y Comisiwn Coedwigaeth yn http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-6VYLYH a gynhyrchwyd gennym i'ch helpu i lenwi'r ffurflen gais ar gyfer Rhif Daliad Plwyf Sirol a/neu'r Cyfeirnod Cwsmer. Rydym hefyd wedi cynnwys papur gydag atebion i nifer o gwestiynau cyffredin a fydd o gymorth i chi hefyd.

Gellir cael y rhifyn hwn a hen rifynnau ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru www.forestry.gsi.gov.uk

Manylion Cysylltu

- Ymholiadau CGG cyffredinol: Ffoniwch 0845 604 0845 neu mewngofnodwch i www.forestry.gov.uk
- Ymholiadau technegol: E-bost bww.ts@forestry.gsi.gov.uk
- Gwasanaeth Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein: Cyswllt www.eforestry.gov.uk
- Ymholiadau ynghylch y Cyfrifwr Cost CGC: E-bost wig.costings@forestry.gsi.gov.uk
- Awgrymiadau ar gyfer rhifynnau yn y dyfodol: E-bost Sam.davies@forestry.gsi.gov.uk
- Dylid anfon ceisiadau Cynlluniwr Rheoli at Sam Davies, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Cwrt Cantref, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 7AX

Rhifyn Nesaf

- 31 Awst 2007

Dyddiadau cyhoeddi ar gyfer gweddill 2007:

- Rhifyn10 - 26 Hydref 2007
- Rhifyn 11 - 12 Rhagfyr 2007

Gellir cael y rhifyn hwn a hen rifynnau ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru www.forestry.gsi.gov.uk

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales